| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Pwyllgor Pensiynau** |
| Dyddiad: | **27/03/2023** |
| Teitl: | **Adroddiad Prisiad y Gronfa Bensiwn** |
| Awdur: | **Dafydd L Edwards – Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn** |
| Argymhelliad: | **Er Gwybodaeth yn unig** |

## 1. Cyflwyniad

Er mwyn cyflawni Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 fe wnaethom gomisiynu Hymans Robertson i gynnal prisiad o Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gwblhau ac mae copi drafft o'r Adroddiad Prisiad i’w weld yn yr **Atodiad**.

Bydd y cyfraddau newydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2023, gyda mwyafrif y cyflogwyr yn gweld gostyngiad yn eu cyfraddau cyfraniadau.

## 2. Pwrpas y Prisiad

Mae’r prisiad actiwaraidd bob tair blynedd yn rhan allweddol o fframwaith rheoli risg y Gronfa. Ei phrif bwrpas yw sicrhau bod y Gronfa yn parhau i fod â chynllun cyfrannu a strategaeth fuddsoddi a fydd yn cyflawni’r amcanion a nodir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido.

## 3. Pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr

Mae angen gosod cyfraniadau’r cyflogwr ar lefel sy’n sicrhau bod gan y Gronfa debygolrwydd rhesymol o gael digon o arian i dalu buddion aelodau. Mae amcangyfrif faint o fuddion sydd angen ei dalu yn gymhleth, oherwydd efallai mai dim ond ymhen 50 mlynedd y bydd buddion a enillir heddiw yn dechrau cael eu talu.

Dros y cyfnod hwnnw, mae ansicrwydd sylweddol ynghylch ffactorau sy’n effeithio ar gost buddion, e.e. chwyddiant, enillion ar fuddsoddiadau. Caniateir ar gyfer yr ansicrwydd hwn trwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o osod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Mae’r dull hwn wedi’i seilio ar dri phenderfyniad ariannu allweddol a osodwyd gan y Gronfa a modelu atebolrwydd asedau:

- **Beth yw'r targed ariannu ar gyfer pob cyflogwr?** A fydd y cyflogwr yn aros yn y Gronfa am y tymor hir neu'n ymadael ar ryw adeg

- **Beth yw'r gorwel amser cyllido?** Am ba hyd y bydd y cyflogwr yn cymryd rhan yn y Gronfa

- **Beth yw'r tebygolrwydd gofynnol?** Faint o risg ariannu y gall cyfamod y cyflogwr ei chynnal

Defnyddir modelu atebolrwydd asedau i ragamcanu asedau a thaliadau buddion pob cyflogwr i'r dyfodol gan ddefnyddio 5,000 o wahanol senarios economaidd.

## 4. Cyfraddau Cyfraniad y Cyflogwr

Mae gan bob cyflogwr cyfradd gyfrannu sy'n briodol i'w hamgylchiadau, ac mae'r rhain i'w gweld yn y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau, sydd i'w gweld yng nghefn yr Adroddiad Prisiad.

Yn fras:

- Mae cyfraddau cynradd wedi cynyddu ers y prisiad diwethaf, oherwydd bod disgwyliadau chwyddiant yn codi.
- Mae cyfraddau eilaidd wedi gostwng, oherwydd perfformiad buddsoddi cryf ers y prisiad blaenorol.

Fodd bynnag, bydd pob cyflogwr yn wahanol, a bydd y gyfradd gyfrannu yn adlewyrchu aelodaeth a phrofiadau pob cyflogwr. Gellir gweld y gyfradd gyfrannu ar gyfer pob cyflogwr yn y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau.

Derbyniodd pob cyflogwr unigol gopi drafft o'u canlyniadau ym mis Hydref 2022 ac fe'u gwahoddwyd i Fforwm Cyflogwyr yn Siambr Hywel Dda ar 26 Hydref 2022 i gael cyflwyniad ar y broses prisiad ac i drafod unrhyw bryderon.

Mae Tabl 1 yn dangos cyfraddau cyfunol y cyflogwr unigol a osodwyd yn y prisiad hwn a'r prisiad diwethaf (31 Mawrth 2019).

| | **Y prisiad hwn 31 Mawrth 2022** | | **Prisiad diwethaf 31 Mawrth 2019** | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd cynradd:** | 21.8% o gyflog | | 20.1% o gyflog | |
| **Cyfradd eilaidd:** | 2023/2024 | -£8,746,000 | 2020/2021 | £358,000 |
| | 2024/2025 | -£9,021,000 | 2021/2022 | £366,000 |
| | 2025/2026 | -£9,303,000 | 2022/2023 | £375,000 |

Mae gweithwyr yn y cynllun pensiwn yn talu cyfraniad i'r Gronfa yn ychwanegol at y cyfraniadau hyn gan y cyflogwr. Pennir cyfraniadau gweithwyr yn genedlaethol, yn y Rheoliadau CPLlL. Cyfradd cyfraniadau cyfartalog y cyflogai ar 31 Mawrth 2022 yw 6.4% o'r cyflog (6.4% ar 31 Mawrth 2019).

## 5. Sefyllfa ariannu

Y lefel ariannu yw cymhareb asedau i rwymedigaethau. Mae gwerth marchnadol yr asedau ar y dyddiad prisiad yn hysbys. Mae gwerth rhwymedigaethau'r dyfodol a

lefel yr enillion ar fuddsoddiadau yn y dyfodol yn ansicr, ac felly'n cael eu hamcangyfrif gan actiwari.

Mae’r rhwymedigaethau a’r lefel ariannu wedi’u cyfrifo ar draws ystod o adenillion buddsoddi gwahanol (y gyfradd ddisgownt).

Ar 31 Mawrth 2022, mae sefyllfa ariannu gwasanaeth y gorffennol wedi gwella ers y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2019. Mae Tabl 2 yn dangos y sefyllfa ariannu sengl yr adroddwyd amdani ar y prisiad presennol a blaenorol, wedi'i ddadansoddi yn ôl statws aelod a gwerth marchnad yr asedau ar y dyddiad prisiad.

| **Dyddiad Prisiad** | **31 Mawrth 2022** | **31 Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau Gwasanaeth y Gorffennol** | **(£m)** | **(£m)** |
| **Gweithwyr** | 1,042 | 855 |
| **Pensiynau Gohiriedig** | 392 | 321 |
| **Pensiynwyr** | 874 | 750 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | **2,308** | **1,925** |
| **Asedau** | **2,776** | **2,081** |
| **Gwarged / (diffyg)** | **468** | **156** |
| **Lefel Ariannu** | **120%** | **108%** |

Mae’r adenillion buddsoddiad gofynnol i’w hariannu 100% bellach yn 3.2% y flwyddyn (3.5% y flwyddyn yn 2019). Mae’r tebygolrwydd y bydd strategaeth fuddsoddi’r Gronfa yn cyflawni’r enillion gofynnol yn 84% (78% yn 2019).

## 6. Newidiadau rhwng y Prisiad diwethaf

Y digwyddiad allanol mwyaf arwyddocaol i ddigwydd ers y prisiad diwethaf yw pandemig Covid-19. Dengys y dadansoddiad o brofiad fod swm y pensiwn a ddaeth i ben yn cyd-fynd yn fras â disgwyliadau. Yn gyffredinol, ychydig iawn o effaith a gafodd profiad marwolaethau ar y sefyllfa ariannu. Mae codiadau cyflog wedi bod yn uwch na’r hyn a dybiwyd dros y cyfnod ac, er bod hyn wedi cynyddu’r gwerth a roddwyd ar y rhwymedigaethau, effaith fach yn unig a gafodd ar y sefyllfa ariannu.

Y ffactor mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y sefyllfa gyllido dros y cyfnod fu’r enillion ar fuddsoddiadau ar asedau’r Gronfa, sydd wedi bod yn llawer gwell na’r hyn a dybiwyd yn y prisiad blaenorol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa ariannu. Yn ei dro, mae hyn wedi helpu i leihau cyfraddau cyfraniadau eilaidd cyflogwyr.